

## DATGANIAD STATUDOL

(Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheol 24.17; Deddf Llysoedd Ynadon 1980, adran 14)

Rhif Gwreiddiol yr Achos:

Cyfeirnod y Cyrif:

Rhif Newydd yr achos:

### Manylion yr achos

Enw llawn y Diffynnydd: .....

Cyfeiriad presennol: .....

Dyddiad geni'r Diffynnydd:

Dyfarnwyd yn euog yn Llys Ynadon:

Gwnaed y datganiad hwn yn Llys Ynadon: , neu  
cyfeiriad cyfreithiwr neu Gomisiynydd Llwon

### Datganiad

#### Yr wyf yn ddifrifol a diffuant yn datgan:

1. Mai fi yw'r diffynnydd a enwir uchod.
2. Fy mod nawr yn gwybod bod y gwrandawriad yn yr achos hwn wedi dechrau ar neu oddeutu (dyddiad).
3. Deuthum i wybod am yr achos ar (dyddiad) oherwydd: *Eglurwch yn gryno sut y daethoch i wybod. Os ydych chi'n defnyddio'r fersiwn electronig o'r ffurflen hon, bydd y gofod isod yn ehangu.<sup>1</sup> Os ydych chi'n defnyddio fersiwn bapur a bod angen mwy o le arnoch, defnyddiwch gefn y ffurflen.*

#### Ac rwyf yn gwneud y datganiad dwys hwn gan gredu'n gydwysbodol ei fod yn wir, yn ôl darpariaethau Deddf Datganiadau Statudol 1835.

**RHYBUDD.** Dan adran 5 Deddf Anudon 1911, os ydych yn gwneud datganiad statudol sy'n anwir mewn manylyn perthnasol yn fwriadol a chan wybod hynny, rydych yn euog o drosedd, ac yn dilyn euogfarn, gellir eich dedfrydu i garchar am gyfnod o hyd at 2 flynedd, neu eich dirwyo, neu'r ddau.

Llofnod: ..... (diffynnydd)

Dyddiad:

#### Datganwyd ger fy mron i:

Llofnod: .....

Enw: [Ynad]  
[Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon)]  
[Cyfreithiwr / Comisiynydd Llwon]

#### Estyniad amser i gyflwyno'r datganiad hwn

Y cyfyngiad amser ar gyfer cyflwyno'r datganiad hwn i **swyddfa'r llys ar gyfer y llys ynadon lle cynhaliwyd y treial yw 21 diwrnod o'r dyddiad y bu i chi glywed am yr achos.** Os ydych wedi cymryd mwy o amser na hynny i'w ddanfôn i swyddfa'r llys perthnasol, eglurwch pam yma. *Os ydych chi'n defnyddio fersiwn electronig o'r ffurflen hon, bydd y gofod isod yn ehangu. Os ydych chi'n defnyddio fersiwn papur a bod angen mwy o le arnoch, defnyddiwch gefn y ffurflen hon.*

*I'w ddefnyddio gan y llys os caniateir estyniad amser:*

Rhoddais estyniad i'r amser ar gyfer cyflwyno'r datganiad hwn oherwydd: *Rhowch resymau byr.*

Llofnod: .....

Enw: [Ynad]  
Dyddiad: [Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon)]  
[Clerc Ynadon / Clerc Cynorthwyol]

<sup>1</sup> Mae'r ffurflenni i'w defnyddio gyda'r Rheolau ar gael yn: <http://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/criminal/formspage>.

### Sut i ddefnyddio'r ffurflen hon

**1. Llenwch flwch manylion yr achos a'r datganiad uchod.**

**2. Gwnewch y datganiad gerbron ynad, Barnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), neu gyfreithiwr neu Gomisiynydd Llwon.** Gallwch ofyn am gymorth yn unrhyw swyddfa llys ynadon. Gweler hefyd y nodiadau canllaw isod.

**4. Anfonwch neu danfonwch y ddatganiad wedi'i gwblhau i swyddfa'r llys ar gyfer y llys ynadon lle cynhaliwyd y treial.** Rhaid iddynt hwy ei dderbyn ddim mwy na 21 diwrnod ar ôl i chi glywed am yr achos. Gallai'r llys yn ymestyn y cyfyngiad amser hwnnw, **ond os yw eich datganiad yn hwyr rhaid i chi egluro pam yn y blwch uchod.**

### Nodiadau Canllaw

Dan adran 14 Deddf Llysoedd Ynadon 1980, mae treial yn ddi-rym lle:

- dechreuodd yr achos gyda gwŷs neu ar gais,
- nad oedd y diffynnydd yn gwybod am yr achos, a
- ddim mwy na 21 diwrnod ar ôl dod i wybod amdano (cyfyngiad amser y gellir ei ymestyn) bod y diffynnydd yn cyflwyno i'r llys ddatganiad statudol nad oedd ef neu hi yn gwybod am yr achos hyd ar ôl y treial.

Rhaid i dreial newydd gael ei gynnal gerbron ynadon gwahanol. Gallai canlyniad treial newydd fod yn wahanol i ganlyniad y treial cyntaf, neu gallai fod yr un fath.

Dan Ddeddf Datganiadau Statudol 1835, gall datganiad y diffynnydd gael ei wneud gerbron unrhyw un sydd wedi'i awdurdodi dan gyfraith i'w glywed (e.e. cyfreithiwr), neu gerbron unrhyw Ynad Heddwch (ynad neu Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon)). Nid oes angen i'r person sy'n clywed y datganiad ymchwilio a yw'n wir ai peidio. Mae swyddogaeth y person hwnnw wedi'i gyfyngu i glywed y datganiad, ac ardystio ei fod ef neu hi wedi gwneud hynny drwy ei lofnodi. Os y daw'n amlwg bod y datganiad yn anwir, gall y diffynnydd a'i gwnaeth gael ei gosbi am anudon.

### Sut y bu i chi ddod i wybod am yr achos

#### Pam fod y datganiad hwn yn hwyr

*Os bydd angen mwy o le arnoch, gallwch barhau â'ch esboniad(au) yma o ddalen flaen y ffurflen hon.*

### Nodyn i staff y llys

Os gwneir y datganiad hwn mewn llys, dylid cyflwyno unrhyw gofnod o'r euogfarn sydd ar gael i'r ynad neu'r Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) y gwneir y datganiad ger ei fron.

Os bydd y llys yn cyfarwyddo y dylid ailrestru'r achos am dreial newydd ar unwaith, rhowch ddyddiad y gwrandawriad: